# 12fed Cyfarfod Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau PBC

## Y Drenewydd, 18fed Chwefror 2014

**Presennol:** Liz Howe, Cadeirydd (CNC); Sean McHugh, Ysgrifenyddiaeth (PBC); Steve Lucas (BCT); Claire Install (*British Dragonfly Society*); Rob Strachan (CNC); Adrian Fowles (CNC); Lizzie Wilberforce (YBGC); Mike Bruford (Prifysgol Caerdydd); Mike Wilson (Amgueddfa Cymru, Caerdydd); Geoff Hobbs (CBS Pen-y-bont ar Ogwr).

**Ymddiheuriadau:** Stephen Bladwell, Cadeirydd (RSPB Cymru); Russel Hobson (BC); Rachel Taylor (BTO); Tim Rich (Amgueddfa Cymru); Sinead Lynch (BBCT); Sam Bosanquet (CNC/BBS); Jean Matthews (CNC); Dan Foreman (Prifysgol Abertawe); Craig MacAdam (*Buglife*); Dave Lamacraft (*Plantlife Cymru*); Sian Whitehad (CNC); Liz Halliwell (CNC); Andy Jones (CNC); Reg Thorpe (RSPB Cymru); Gareth Griffith (Prifysgol Aberystwyth).

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

| Rhif | Diweddariad/Cam Gweithredu | Gan bwy/pryd | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 1 | Diweddariadau gan Bartneriaid.<br>Ystlumod: Bydd gweithdai ar ystlumod prin mewn coetiroedd yn digwydd drwy Gymru. Bydd protocolau'n cael eu datblygu ar gyfer arolygon ystlumod mewn coetiroedd; Tirweddau ar gyfer prosiect peilot menter Ystlumod Pedol Lleiaf ym Mhenrhyn Gŵyr;<br>Gweision y Neidr: Mae adran ar gyfer Cymru ar wefan BDS yn awr ar gael; adran ar gyfer lleoedd i weld gweision y neidr; cyngor ar reoli cynefinoedd sy'n cael ei roi i dirfeddianwyr yn Sir Benfro (mursen Benfro); bydd cyrsiau adnabod a chofnodi yn cael eu rhedeg yn yr haf; Atlas Gweision y Neidr y DU allan ym mis Mai - bydd tueddiadau yn cael eu nodi ar gyfer rhywogaethau Cymru.<br>Llygod Pengrwn y Dŵr: Bydd YBGDGC yn croesawu Swyddog Llygod Pengrwn y Dŵr.<br>Gwiwer Goch: Bydd Swyddog Prosiect y Wiwer Goch yn cael ei benodi er mwyn cynorthwyo Prosiect Gwiwer Goch Canolbarth Cymru<br>Pysgod: Crybwyllodd Rob Strachan ad-drefnu deorfeydd | **Pawb/ 31ain Mawrth**<br>Anfonwch ddiweddariadau byr at Sean (smchugh@wtwales.org) er mwyn eu cynnwys ar wefan PBC.<br><br>Lizzie Wilberforce i ofyn am ddiweddariadau am y rhywogaethau gan y YBGau eraill. | Adran Cymru y *British Dragonfly Society* http://www.british-dragonflies.org.uk/content/new-bds-wales-web-page |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pysgod CNC - gallan nhw gau neu newid eu ffocws i ymchwil. Mae'n effeithio ar eogiaid, cimychiaid yr afon bodiau gwynion, misglenni perlog yr afon a gwyniaid.<br><br>Infertebrata: clogwyn meddal yn cefnogi saerwenwynen *Osmia xanthomelana* ym Mhorth Neigwl wedi goroesi'r stormydd yn rhannol. Mae CNC yn gwneud archwiliad mewnol ar erydiad clogwyni meddal yn ystod y stormydd diweddar.<br><br>Uwch-blanhigion: Mae'r BSBI yn gwylio rhywogaethau ar SoDdGAau; Cronfa ddata dosbarthiad planhigion a chofrestr Planhigion y Sir ar wefan BSBI.<br><br>**Herptiliaid**: Mae prawf absenoldeb/presenoldeb DNA wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y madfallod dŵr cribog - bydd protocol yn cael ei ryddhau; mae protocol modelu GCN wedi cael ei ddatblygu. Bydd Liz yn cylchredeg y manylion. | Liz Howe i gylchredeg protocol modelu GCN pan fydd wedi cael ei ryddhau gan Defra. | Cofrestr Planhigion y Sir BSBI http://www.bsbi.org.uk/<br><br>Cronfa ddata BSBI ar gyfer dosbarthu planhigion http://bsbidb.org.uk/ |
| **2** | Rhywogaethau- mae gwaith integreiddio cynefinoedd yn gwneud cynnydd. Mae Stephen wedi cynhyrchu nodyn cynnydd a fydd yn cael ei gylchredeg i bawb. Nodau cyffredinol y gwaith yw:<br>• Cadarnhau'r wybodaeth ar ofynion rhywogaethau blaenoriaeth a42 Cymru (Deddf ANChG 2006) er mwyn penderfynu ar nodweddion cynefinoedd pwysig.<br>• Cynhyrchu canllawiau ar gyfer pob un o Grwpiau | Sean i gylchredeg nodyn integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd gyda chamau gweithredu'r cyfarfod.<br><br>Pawb - sylwadau ar y ddogfen integreiddio gwlyptiroedd erbyn **7fed Ebrill**.<br><br>Liz Howe i wirio gyda Stephen a Chris Tucker ar | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ecosystemau PBC ar rywogaethau lle mae'u hadferiad yn rhannol ddibynnol o leiaf ar gyflawni targedau cynefinoedd sydd wedi'u rheoli mewn un neu fwy o'r grwpiau ecosystemau.<br>• Gwneud argymhellion rheoli ar sut y gall anghenion rhywogaethau â blaenoriaeth a nodwyd uchod gael eu hintegreiddio orau i waith sy'n cyflawni targedau cynefinoedd blaenoriaeth.<br><br>Mae'r GARh angen cwblhau'r gwaith o integreiddio gwlyptiroedd. Diolch am y sylwadau a dderbyniwyd hyd yma, mae angen mewnbwn pellach ar gynefinoedd arbenigol/disgrifyddion adnoddau.<br><br>Coetiroedd - mae angen cwblhau'r gwaith integreiddio. Mae'r GARh wedi gweithio gyda'r corff etifeddol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, er mwyn datblygu argymhellion ar gyfer Glastir (adar a mamaliaid). Mae angen mireinio hyn ar gyfer safleoedd coetiroedd nad ydyn nhw'n goetiroedd Glastir. Mae Stephen yn cyfarfod â chydweithwyr CNC ac eraill i symud hyn ymlaen. | y cynnydd gyda'r gwaith coetiroedd erbyn **12fed Mai**. | |
| 3 | Diweddariad gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru (Steve Lucas). Roedd cyfarfod diwethaf o'r bwrdd wedi canolbwyntio ar CDG. Mae ymgynghoriad Glastir yn awr yn fyw a bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ymgynghoriad CDG. | Steve Lucas i anfon diweddariadau o BSBC i GARh.<br><br>Stephen i ofyn am | Mae cyfarfod nesaf Bwrdd y BSBC ar 21ain Mawrth.<br><br>Ymgynghoriad Glastir<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 28 Mawrth 2014. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cronfa Natur £6m. Derbyniwyd dros 460 o gynigion. Bydd y cynigion yn cael eu grwpio drwy themâu ac ardaloedd. Disgwyl lansio'r cynllun ac am fanylion pellach. Datganiad gweinidogol ym mis Mawrth a lansio'r cynllun wedi'i gynllunio erbyn diwedd Mawrth.<br><br>Cynllun Adferiad Natur - nid oes datblygiadau pellach gyda hwn, er bod LlC yn anelu at lansiad yn y gwanwyn.<br><br>Nid oes diweddariadau pellach ar strwythur PBC.<br><br>Cynrychiolwyr CA yng nghyfarfodydd BSBC (BCT; BC; WT; RSPB) - swyddogaeth ddylanwadol a swyddogaeth ymgynghorol i LlC ar faterion bioamrywiaeth. | ymgynghoriad ar gyfer Cynllun Adferiad Natur - a oes un wedi'i gynllunio? | |
| 4 | Bylchau Tystiolaeth.<br>Diweddarodd Mike Bruford GARh ar y prosiect. Ymdrin â bylchau tystiolaeth (cysylltiedig â bioamrywiaeth ac ecosystemau) a sut y gellir ymdrin â nhw gan y gymuned academaidd. Mae gan wefan Bylchau Tystiolaeth yn awr 200 o brosiectau gydag amrediad eang o gwestiynau y gellir ymdrin â nhw gan y gymuned academaidd yn cynnwys prosiectau gan fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig. Mae rhai o'r rhain wedi'u trawsnewid i gynigion sy'n barod i'w derbyn. Mae Mike a Geoff Proffit yn gweithio gydag academyddion i dderbyn cefnogaeth.<br>Lansio gweinidogol y prosiect 30ain Ebrill neu 2ail Mai yng Nghaerdydd a fydd yn codi proffil y prosiect. Bydd y digwyddiad lansio yn y bore wedi'i ddilyn yn y | **Pawb** Adolygu bylchau tystiolaeth a sylwadau a wnaed gan Mike Bruford (colofnau I.J.K) yn nhaenlen Excel 'Rhestr Bylchau Tystiolaeth' ar dudalen we Bylchau Tystiolaeth PBC.<br><br>**Pawb** Mae angen gwirfoddolwyr i adolygu a mireinio bylchau tystiolaeth y GARh ym mlaenoriaethau'r Grŵp yn nhaenlen Excel 'Rhestr Bylchau Tystiolaeth' cyn lansio'r prosiect Bylchau Tystiolaeth. Mae Liz Howe wedi gwirfoddoli ac mae angen mwy o wirfoddolwyr. | Ymdriniodd Mike â sylwadau o'r GARh ynghylch nifer o bwyntiau: derbyniad y prosiect; cyllid; blaenoriaeth papurau 'mewnbwn uchel'? mynediad i'r data gan y cyhoedd; rheoli data a hygrededd; cydweithio gyda sefydliadau eraill yn y DU; ymgysylltiad â CYAC. Mike: mae trafodaethau yn parhau; bydd mireinio'n dilyn; mae'r prosiect wedi cychwyn trafodaethau, y potensial i ychwanegu gwerth a bod yn offeryn defnyddiol i ddarparu sail tystiolaeth.<br><br>Cyswllt i brosiect Bylchau Tystiolaeth:<br><br>http://www.biodiversitywa |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prynhawn gan weithdy sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd dyfrol. | | les.org.uk/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth-PBC<br><br>Cyswlltwch â: Tracey Lovering (tracey.lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) |
| 5 | Ymgynghoriadau<br><br>Mae ymgynghoriad AGA (adar) ar agor. Gall y newidiadau arfaethedig ymestyn tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ar Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli, Sgogwm a Sgomer, a Gwales.<br><br>Mae ymgynghoriad Glastir ar agor tan 28ain Mawrth 2014. Nodwyd y gall fod posibilrwydd o gomisiynu arolygon ac addysgu cynghorwyr Glastir. Gall Glastir Uwch fod yn ehangach nag yn y cynllun blaenorol ac felly bydd targedu yn bwysig.<br><br>Mae ymgynghoriad y CDG ar agor tan 14eg Ebrill 2014. | Pawb i nodi'r ymgynghoriadau'r AGA, Glastir a'r CDG.<br><br>Liz Howe i ddrafftio pwyntiau ymateb allweddol ar gyfer ymgynghoriad yr AGA a'u cylchredeg i'r grŵp.<br><br>Sean i ddrafftio pwyntiau ymateb allweddol ar gyfer ymgynghoriad Glastir a'u cylchredeg i'r grŵp. | Bydd aelodau'r GARh yn ymateb fel rhan o ymateb eu sefydliadau eu hunain i'r ymgynghoriad. Bydd y GARh yn cynhyrchu ymateb lefel uchel.<br><br>Ymgynghoriad yr AGA http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/news/consultation-launched-birds/?lang=cy#.UwYYk_l_tyU<br><br>Ymgynghoriad Glastir http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/proposals-for-glastir-scheme-consultation/?skip=1&lang=cy<br><br>Ymgynghoriad ar Raglen Datblygu Cymru Wledig 2014-2020 http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/wales-rdp-2014-2020-final-proposals/?skip=1&lang=cy |
| 6 | Gweithdai'r GARh/mewnbwn o gynhadledd PBC.<br>Cynhaliwyd gweithdai cynefinoedd â blaenoriaeth yn ystod blynyddoedd blaenorol, cyfle i'r GARh gymryd rhan a chynnig cyngor ar rywogaethau.<br><br>Mae'r syniad o weithdai rhywogaethau'r CGBLl yn | Liz Howe i wirio gyda Jan Sherry ynghylch statws gweithdai cynefinoedd blaenoriaeth.<br><br>Sean i ofyn i CGBLlau ynghylch eu hanghenion rhywogaethau er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer gweithdy posibl. | Gweithdai CGBLl - nid yw digwyddiad gwib garu yn gweithio'n aml ar gyfer y rhywogaethau llai carismatig. Mae gweithdai CGBLl yn cael eu hystyried fel syniad da, ond ceir materion ynghylch y nifer o leoedd sydd ar gael. Gallai targedu gofodol yn seiliedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | boblogaidd gyda'r CGBLlau, nid yw wedi'i symud ymlaen yn ffurfiol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gwahodd cyfres o arbenigwyr ar rywogaethau i gyflwyno sgyrsiau mewn cyfarfodydd y CGBLl er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo camau gweithredu.<br><br>Cynhadledd PBC 10-11[eg] Medi, Caerdydd.<br>Mae PBC wedi gofyn am syniadau a derbyniwyd testunau cysylltiedig â rhywogaethau - brith y gors, mamaliaid y tir, morfilod, peillwyr a morwellt.<br><br>Gallai'r GARh o bosibl gynnal gweithdy ar integreiddio cynefinoedd rhywogaethau ar gyfer y rhai hynny sydd wedi cael eu cwblhau gan y grŵp.<br><br>Nodyn: ymateb gan sefydliadau sy'n aelodau o'r GARh i Ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd. Yn ogystal, bu Liz Howe, Mike Wilson a Geoff Hobbs yn y gweithdai ymgynghori. | Pawb i nodi dyddiad y gynhadledd ac awgrymu syniadau ar gyfer cyflwyniadau / gweithdai i Sean (smchugh@wtwales.org). | ar flaenoriaeth rhywogaethau, hyrwyddo camau rheoli cyffredin neu'i ddefnyddio fel cyfle i godi ymwybyddiaeth.<br><br>Efallai gall Partneriaid Arweiniol Rhywogaethau sefydledig ymdrin â'r mwyafrif o'r amcanion hyn. |
| 7 | Adolygiad cynllun gwaith / aelodaeth y GARh<br><br>Cytunodd y GARh i adolygu cynllun gwaith. Awgrymwyd camau gweithredu ar gyfer adroddiad cynnydd rhywogaethau a42 fel ychwanegiad.<br><br>Ychwanegu cynrychiolwyr arbenigwyr rhywogaethau panel cyllido SITA i'r cynllun gwaith | Pawb i adolygu'r cynllun gwaith erbyn 31[ain] Mawrth. | |
| 8 | UFA<br><br>Prosiectau Cronfa Ecosystemau Cydnerth. Nid yw rhai prosiectau wedi hawlio taliad. | Derbynwyr cyllid CEC: anfonwch eich hawliadau at Julia Korn cyn gynted | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhoddodd Mike Wilson ddiweddariad ar brosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion OPAL sy'n cael ei ymestyn i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd swyddogion prosiect yn cael eu penodi yng Ngogledd Cymru (2) ac 1 yn Ne Cymru. Bydd prosiectau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Lloegr yn cael eu hymestyn i'r ardaloedd newydd e.e. *Bugscount*, cennau ac ansawdd aer.<br><br>Prosiect OPAL<br>http://www.opalexplorenature.org/<br><br>Mae swyddog BARS PBC wedi cael ei phenodi - Holly York (hyork@wtwales.org) BARS | ag sy'n bosibl. | |
| **Eitemau Sefydlog** | | | |
| 9 | Rhaglen waith y GARh. Wedi'i chynnwys yn eitem 7.<br><br>Camau gweithredu o gyfarfod y Cadeiryddion wedi'u cynnwys i raddau helaeth yn eitemau 5,8.<br><br>Eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf. | Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r Cynlluniwr gyda'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau er mwyn hwyluso cynrychiolydd y GARh i fynychu'r digwyddiadau hyn.<br><br>Pawb i anfon eitemau ar gyfer agenda cyfarfod y GARh ym mis Mehefin 2014. | Mae hyn angen mewnbwn gan Gadeiryddion Ecosystemau er mwyn darparu gwybodaeth i'r GARh am weithdai cynefinoedd â blaenoriaeth sydd wedi cael eu cynllunio. |
| | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf - Mehefin 2014** | | Mae cyfarfod maes yn cael ei gynllunio. Awgrymwyd ystafell gyfarfod Corsydd Teifi. |
| Camau gweithredu ac eitemau sy'n parhau | | | |
| i | Yr holl bartneriaid i anfon diweddariad byr am y prosiectau y maen nhw'n ymwneud â nhw at | Pawb/diwedd Mawrth 2014. | Cyswllt y GARh ar wefan PBC:<br>http://biodiversitywales.or |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sean er mwyn iddo ef eu cylchredeg i GARh. Yn ogystal, gellir cynnwys diweddariad treigl ar wefan PBC o dan adran GARh. | | g.uk/en-GB/Species |
| ii | BARS<br>Mae BARS 2 yn awr yn fyw - hawdd ei ddefnyddio, cynrychioli camau gweithredu'n ofodol, mae mapio blaenoriaethau o grwpiau ecosystemau ar gael ar BARS. | Anogir pawb i ymweld â BARS newydd ac edrych am gyfleoedd i fewnbynnu/ roi sylwadau. | Cyswllt BARS a gwybodaeth bellach:<br>http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/System-Adrodd-am-Weithredu-Bioamrywiaeth-BARS<br><br>Cyswllt mapio blaenoriaethau PBC:<br>http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau |